**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 19:00 nos Fawrth 19 o Orffennaf 2022 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Berwyn Parry Jones, Beca Brown, Alan Pritchard, Hefin Jones

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Philip Roberts, Richard Robinson

Oherwydd absenoldeb y clerc, fe gymerwyd y cofnodion gan y Cynghorydd Avril Jones

**998. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd a diolchodd i bawb ar y cyngor am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ei phrofedigaeth diweddar.

**999. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1000. Datgan buddiant personol.**

Y rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**1001. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 21 Mehefin 2022**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y cadeirydd.

**1002. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Nodwyd fod y Cynghorydd Hefin Jones wedi mynychu d dau gyfarfod Cynulliad Cymdeithasol yn Llanberis ag wedi adrodd yn ol mis diwethaf i'r Cyngor mwy o bwyllgorau yn mynd i gael ei cynnal yn cynnwys cryfderau ein hardal .

Soniwyd hefyd am lythyr yn yr Eco gan Hugh Hughes yn argymell bod Llanrug wedi tyfu yn ardal fawr a pryder hefo carffosiaeth yn yr ardal. Hefin yn mynychu Cyfarfod Gwyrdd hwn yn cael ei gynnal ar y 19/7/2022 Dr Robin Parry yn siarad am afonydd a llynnoedd yr ardal, Hefin am wrando ar y cyflwyniad ag adrodd yn ôl mis nesaf.

Y Cadeirydd yn awgrymu bod tri mis o gofnodion byr yn cael ei rhoi yn yr Eco mis Medi.

Polisi Cwynion Drafft wedi cael ei gwneud gofynnodd y Cadeirydd i afon ymlaen i'r Clerc a hefyd y Cynghorydd Phillip Roberts i gael golwg arni cyn mynd at y pwyllgor llawn.

Cadarnhad bod y ddwy goden er cof am y diweddar Brian Jones a Charles Jones wedi ei plannu. Edrych i mewn i gael cofeb ar y ddwy a rhoi gwadd i'r teulu i ddŵad draw i'w gweld.

**1003. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

Adroddiad i ddilyn

**1004. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Adroddiad i ddilyn

**1005. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C22/0469/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad un llawr ochr
**Ymgeisydd:** Mr D Lawton
**Asiant:** Mr A.G Jones
**Cyfeiriad:** Bryn Y Maen, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RY
**Cyfeirnod Grid:** 253280.08, 361955.19
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**1006.** I dderbyn adroddiad ac i gymeradwyo penderfyniadau'r Pwyllgor y Fynwent

Yn absenoldeb cadeirydd pwyllgor y fynwent, adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones fod y pwyllgor wedi cyfarfod a4 y 4ydd o Orffennaf 2022 ac ymysg y pwyntiau a benderfynwyd oedd

A) Asesiad risg eisiau cael ei drefnu i weld a ddatblygiad sydd wedi cael ei wneud or asesiad risg cyntaf.

B) Cwynion hefo defaid yn y fynwent angen rhoi arwyddion ar y postyn giât, y ffarmwr wedi gofyn i ni gysylltu yn sydd os ydi hyn yn digwydd eto.

C) Y Cadeirydd wedi cysylltu a'r Eglwys yng Nghymru sawl gwaith a ddim wedi cael ateb yn enwedig hefo cyflwr y wal yn y fynwent, y cyngor yn argymell cael cyfarfod yn y fynwent.

D) Hysbysfwrdd wedi cael penderfyniad lleoliad a lliw isio cael ei archebu.

E) Codi ffi am osod carreg newydd neu ail osod carreg yn y fynwent y ffioedd wedi cael ei penderfynu gan yr is bwyllgor argymell bod yn cymerwyd effaith o 1/9/2022. Trwy newid ar y rheolau y fynwent ar ymgymerwyr gael y wybodaeth.

D) Mynd trwy amcanion y fynwent sydd yn cael blaenoriaeth trwy gydol y flwyddyn.

Gofynnir i'r cyngor llawn gymeradwyo'r uchod.

**Penderfynwyd:**

**a)** Derbyniwyd y wybodaeth a diolchwyd i'r Cynghorydd Hefin Jones am yr adroddiad.
**b)** Cymeradwywyd yr uchod

**1007.** I dderbyn a adroddiad ac i gymeradwyo penderfyniadau Pwyllgor Hamdden a Mwynderau

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ymysg y pwyntiau a drafodwyd oedd

A) Mynd trwy yr amcanion y pwyllgor am y flwyddyn a rhoi blaenoriaeth fel mae yn codi.

B) Codi ysbwriel ddim wedi gario allan ar y 20/7 ddim wedi hysbysebu ddigon buan. Y Cynghorydd Beca Brown am rhoi ar Facebook erbyn 3/9 a 29/9 y ddau ar dydd Sadwrn am 10 yb yn Llanrug a Chwm y Glo. Cysylltu a'r Cynghorydd Richard Robinson beth i wneud hefo y bagia ysbwriel.

C) Ymgyrch i gael dau diffibriliwr newydd un yn Fricsan y perchennog yn fodolon a hefyd cysylltu hefo Gweinidog Capel Tan y Coed hefo yr un arall. Wedi gweld bod grantiau ar gael gan yr Llywodraeth Alan wedi anfon bost i edrych os fuasai Cyngor Cymuned yn cael grant ddim wedi cael ateb eto.

D) Biniau dal i ddisgwyl dyddiad i gyfarfod swyddog or Cyngor y Clerc yn mynd ddilyn i fyny pan yn ôl o'i wyliau.

E) Cystadleuaeth Nadolig y trydydd gwobr fydd £20 punt. Trafodaeth ynglŷn a Cwmni goleuadau yn dweud ei bod wedi malu a bod cost ychwanegol o £4000 y cyngor ddim yn hapus hefo hyn angen fwy o fanylion gan y cwmni pam mae hyn wedi digwydd.

F) Adroddwyd fod y Cynghorwyr Berwyn Parry Jones, Hefin Jones ac Avril Jones wedi cyfarfod yn y gampfa wedi trafod y ffurflenni ar llawlyfr felly bydd hyn yn cael ei wneud yn wythnosol gan un ohonynt.

G) Asesiad risg caeau chware angen trefnu pwyllgor i fynd o amgylch i weld be sydd angen ei wneud yn enwedig y rhai sydd yn risg uchel

H) Wal wedi dymchwel yn Nant y Glyn a trefniadau ar y gweill i'w thrwsio. Hefyd angen gwaith trwsio ar ffens yn Nant y Glyn i arbed defaid ddod i'r cae. Siglen newydd yn Pwll Moelwyn wedi archebu angen mwy o waith cost ychwanegol £198 angen i wneud er mwyn i'r plant cael ei defnyddio dros y gwyliau.

Gofynnir i'r cyngor gymeradwyo'r adroddiad

**Penderfynwyd:**

**a)** Derbyniwyd y wybodaeth a diolchwyd i'r Cynghorydd Avril Jones am yr adroddiad.
**b)** Cymeradwywyd yr uchod

Daeth y cyfarfod i ben am 20:10

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 16 Awst 2022